# Cwrs Perchnogaeth Cŵn Gyfrifol

BLUE CROSS
Pets change lives
**We change theirs**

**Nodwyd eich bod yn gymwys ar gyfer trefniant i ddelio ag achos y tu allan i'r llys. Un o amodau'r canlyniad hwn yw bod yn rhaid i chi fynd ar Gwrs Perchnogaeth Cŵn Gyfrifol, a ddarperir gan Blue Cross.**

## Amcanion y cwrs

- Gwella eich gwybodaeth a'ch ymwybyddiaeth
- Gwella agweddau tuag at ddiogelwch a deddfwriaeth cŵn, a gwella ymwybyddiaeth o les ac ymddygiad anifeiliaid
- Rhoi cyngor ymarferol a chefnogaeth arbenigol i chi a'ch ci – bydd y cwbl yn cael ei ddarparu mewn ffordd anfeirniadol a myfyriol

Cwrs tair awr AR-LEIN yw hwn y mae'n rhaid i chi dalu amdano eich hun drwy wneud taliad o **£60.00**. Efallai y bydd y pris yn cael ei ostwng os ydych chi'n cael unrhyw fudd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd.

**Rhaid i chi gwblhau'r cwrs AR-LEIN a chymryd rhan drwy gydol y cwrs er mwyn i'r llys ystyried eich bod wedi cwblhau'r cwrs ac wedi CYDYMFFURFIO â'ch trefniant i ddelio â'r achos y tu allan i'r llys.**

Mae'r cytundeb a'r dogfennau wedi'u llofnodi yn rhoi awdurdod i'r Heddlu rannu eich gwybodaeth â Blue Cross, a fydd yn cael eich manylion ar ffurf atgyfeiriad ar gyfer y cwrs. Rydych hefyd yn cytuno i gysylltu â Blue Cross a sicrhau eich bod yn archebu lle ar gwrs o fewn 28 diwrnod.

Rydych yn 18 oed a throsodd ac rydych yn deall pam y cynigir y cwrs i chi ac yn deall sut i archebu ar-lein neu dros y ffôn. Gallwch fforddio talu'r pris yn llawn cyn y dyddiad sydd ar gael ar gyfer y cwrs. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych gysylltiad rhwydwaith neu Wi-Fi da cyn ymuno â'r cwrs. Bydd Blue Cross yn rhoi gwybod i'r heddlu sy'n gyfrifol am eich achos os na fyddwch yn cydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion uchod. Rhaid i chi fynd ar y cwrs a chymryd rhan lawn ynddo o fewn 12 wythnos i ddyddiad eich trosedd. Bydd Blue Cross yn rhoi gwybod i'r heddlu sy'n gyfrifol os na fyddwch yn cydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion uchod.

Mae'n bwysig archebu lle ar y cwrs a'i gwblhau. Os na fyddwch yn gwneud hynny, bydd yr Heddlu'n adolygu eich achos ac efallai y bydd trefniant arall yn cael ei wneud i ddelio â'r achos, a fydd yn cael ei gynnwys ar eich cofnod troseddol. Gallech hefyd gael eich gwysio i ymddangos gerbron Llys Ynadon ac, os cewch eich dyfarnu'n euog, byddwch yn cael euogfarn droseddol.

I archebu eich lle:

**t: 0300 111 8950**
**e: rdoc@bluecross.org.uk**
**w: bluecross.org.uk/RDOC**

Fel arall, gallwch gysylltu â'r heddlu sy'n gyfrifol gan ddefnyddio'r wybodaeth isod.